Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

10 Mawrth 2022

Annwyl Cadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 15 Chwefror 2022 am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Rwy'n croesawu cefnogaeth y Pwyllgor i'n barn y dylai Gweinidogion Cymru allu cyfrannu ar faterion sydd o fewn eu cymhwysedd datganoledig fel cyfranogwyr egnïol ar y Cyngor Partneriaeth. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Grŵp Rhyngweinidogol newydd ar y Berthynas rhwng y DU a'r UE wedi'i sefydlu ac i Lywodraeth y DU geisio trefnu ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror. Fodd bynnag, byddwch wedi gweld y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Weinidog yr Economi ar yr amgylchiadau anffodus ynghylch y cyfarfod hwnnw.

Bydd angen i'r trefniadau wella'n fawr iawn yn y dyfodol – er mwyn adlewyrchu dull mwy parchus o weithio gyda'r llywodraethau datganoledig fel y cytunwyd yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol – os yw'r IMG hwn i weithredu fel y bwriadwyd. Os gellir gwneud hyn, prif rôl yr IMG hwn fydd darparu fforwm i'r pedair llywodraeth drafod materion sy'n ymwneud â chyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth (a'r Cyd-bwyllgor ar y Cytundeb Ymadael), a disgwyliaf y byddwn yn defnyddio'r fforwm hwn i bwyso ymhellach am y cyfle i gymryd rhan lawn yn y Cyngor Partneriaeth. O ran eich pwynt penodol am gynnal y dull pedair gwlad a nodwyd gan yr Arglwydd Frost, disgwyliwn i Lywodraeth y DU gadw at ei hymrwymiadau yn hyn o beth, er y newidiadau Gweinidogol sydd wedi digwydd, ac nad ydym wedi gweld dim i ddangos bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cadw at yr ymrwymiadau hyn.

O ran eich pwyntiau am ymwneud Llywodraeth Cymru â'r Pwyllgorau Arbenigol, a'r modd y caiff Senedd Cymru'r wybodaeth ddiweddaraf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i roi gwybodaeth yn rhagweithiol am ei chyfarfodydd rhynglywodraethol yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol. Rwy'n hapus i ystyried sut y gallwn roi mwy o wybodaeth am ein hymwneud ni â'r strwythurau TCA hyn mewn ffordd gymharus a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

phragmatig, tra'n parchu cyfrinachedd trafodaethau lle y bo'n briodol a'r ffaith mai'r cofnodion y cytunwyd arnynt ac a gyhoeddir yw'r unig gofnod ffurfiol o'r hyn a ddywedwyd gan y partïon eraill yn y cyfarfod a pha benderfyniadau a wnaed. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod hyn gyda swyddogion yn Llywodraeth yr Alban, Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU; ac awgrymaf y dylai swyddogion wedyn gyfarfod â Chlerc eich Pwyllgor i'w (d)diweddaru am y trafodaethau hynny.

Ynghylch y Grŵp Cynghori Domestig, mae Llywodraeth y DU wedi dweud wrthym fod swyddogion wedi bod yn briffio Gweinidogion FCDO ar yr agweddau newydd ar eu portffolios sy'n ymwneud â'r UE. Maent yn gobeithio gallu rhoi gwybod i'r cyrff hynny sydd wedi Datgan Diddordeb am ganlyniad eu ceisiadau yn y dyfodol agos. Nid ydym yn gwybod pa gyrff sydd wedi Datgan Diddordeb, oherwydd deallwn gan Lywodraeth y DU nad oedd nifer ohonynt wedi rhoi caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu y tu allan i Lywodraeth y DU. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor eto unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am y Grŵp Cynghori Domestig. Mae llai wedi'i wneud o ran aelodaeth y Fforwm Cymdeithas Sifig, yn rhannol am fod gan yr UE brosesau mewnol o hyd i'w cwblhau cyn y gall benderfynu ar yr aelodaeth.

Yn gywir,



MARK DRAKEFORD